

Cofnodion cyfarfod 3/9/2020 (trwy gyfrwng StarLeaf)

Presennol: Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Tony Parry, Alun Price, Las Puw (Clerc) .

1. **Croesawyd** yr aelodau i gyfarfod cyntaf yn defnyddio StarLeaf a derbyniwyd ymddiheuriadau Sharon Evans, Ivora Jones, Eluned Jones, Carol Rowlands, John Caradog Williams a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd). Anfonwyd cofion arbennig at Ivora Jones. Dywedodd y Maer y bu prysurdeb twristiaid yn y dre, ond tawel iawn fu'r haf o ran gweithgareddau cymunedol oherwydd cyfyngiadau Covid 19. Bu'n ymwneud ag Awel y Coleg ac Ysgol Godre'r Berwyn , ac roedd yn falch o ganlyniadau arbennig yr ysgol a'r niferoedd uchel sy'n mynychu'r Chweched Dosbarth. Roedd wedi llongyfarch Clwb Pêl Droed Y Bala a chytunwyd i anfon llongyfarchiadau'r Cyngor i'r Clwb ar eu llwyddiant yn Malta gyda dymuniadau gorau am weddill yr ymgyrch.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Gorffennaf 2il 2020.
4. **Materion y Clerc:**
 - i. Cytunwyd i ddiolch i Mabon Rhys Thompson am ei wasanaeth i'r Cyngor Tref ac i ddymuno'n dda iddo yn y dyfodol. Bydd y Clerc yn gwneud y trefniadau arferol i lenwi'r sedd wag. Cytunwyd i ddilyn arweiniad Un Llais Cymru a chynnal Cyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd, er na all y cyhoedd fod yn bresennol. Cytunwyd i gadw'r swyddi yr un fath tan fis Mai y flwyddyn nesaf.
 - ii. Pwynt ceir trydan: Mae Trafnidiaeth Cymru yn parhau i drafod gyda Scottish Power.
 - iii. Sbwriel: Diolchwyd i Gyngor Gwynedd am ymateb i'r cwynion am sbwriel yn y dref; gwerthfawrogwyd gwaith dygn Mr Yates yn gofalu am lendid y dref. Gwerthfawrogwyd gwaith wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri wrth Lyn Tegid. Disgwylir ymateb gan rai o Swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri i'r gofidiau a fynegwyd am sbwriel. Unwaith eto mae'r Cyngor Tref yn annog mwy o finiau a gwagio'n amlach yn ystod tymor yr ymwelwyr. Cytunwyd i holi'r Cynghorydd Dilwyn Morgan a ydyw'n amod o'r trwydded i werthu bwyd ar gyfer bwyta allan bod y gwerthwyr yn clirio sbwriel o flaen y siop/caffi.
 - iv. Marciau pellhau: Ymatebodd Cyngor Gwynedd a'r Asiantaeth Cefnffyrdd (NMWTRA) i'r cais gan y cyhoedd i farcio 2m o bellter o flaen siopau'r dref.
 - v. Beiciau modur o gwmpas cerflun Tom Ellis: Tynnwyd sylw'r Asiantaeth Cefnffyrdd a Heddlu Gogledd Cymru at y sefyllfa.
 - vi. Gosod byrddau yn y manau parcio ar y Stryd Fawr: Roedd Stori wedi derbyn caniatâd i ddefnyddio'r darn parcio o flaen y siop ar gyfer eu cwsmeriaid eleni, oherwydd y cyfyngiadau ar y niferoedd oedd yn gallu mynd mewn i'r siop. Cytunwyd i holi'r Cynghorydd Dilwyn Morgan pa bryd bydd y trefniant hwn yn dod i ben.

Gwrthwynebodd Cyngor Tref Y Bala yn gryf cael trefniant o'r math hwn o flaen Y Goat yn bennaf oherwydd fod gardd gwrw yn y cefn; ni roddodd Cyngor Gwynedd ganiatâd i hyn chwaith.

- vii. Pafin anwastad: Yn anffodus cafodd person godwm oherwydd pafin anwastad, a chysylltodd y Cyngor gyda'r Asiantaeth Cefnffyrdd ar frys gan grybwyll nifer o achosion tebyg; bydd Merfyn Morris yn holi Llywodraeth Cymru os oes modd gosod tarmac ar hyd pafin y Stryd Fawr.
- viii. Mae Cymdeithas Hanes wedi ffonio yng nglyn â gosod QR ar rai adeiladau yn y dref; cytunwyd i'w gyfeirio at y Cynghorydd Alun Price, sydd wedi gwneud llawer iawn o waith yn y gorffennol gyda'r Tro Trefol. Efallai gellir cysylltu hyn gyda'r bwriad o osod byrddau gwybodaeth yn y dref.
- ix. Cau'r ffordd yn Llanycil: Darllenwyd neges gan Asiantaeth y Cefnffyrdd yn egluro mai trefniant cyfwng yn unig yw'r Gorchymyn Cau a luniwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru; nid oes disgwyl y bydd angen gweithredu'r Gorchymyn. Diolchwyd i'r Cynghorydd Sue Davies am roi'r neges swyddogol ar y cyfryngau cymdeithasol.

5. **Cyngor Gwynedd:** Nid oedd Adroddiad.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry a soniodd fod yr ymchwiliadau a'r broses cynllunio bron â gorffen.

7. **Is-bwyllgor y Nadolig** – Mae'r Cynghorydd Rhys Evans wedi trefnu cyfarfod â Chadeirydd y Clwb Rotari i drafod posibiladau gyda'r goleuadau Nadolig. Mae lori wth deithio trwy'r stryd wedi rhwygo llinyn o oleuadau wrth y Post.

8. **Materion Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau i'w trafod.

9. **Materion Cyllid:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Derbyniwyd ail ran y Praesept a chytunwyd i drosglwyddo £10,000 i'r Cyfrif Busnes er mwyn diogelwch.
- ii. Cytunwyd i dalu'r taliadau misol; adroddwyd y talwyd £144 i StarLeaf (cynnwys TAW) er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd yn ddiogel ar lein.

10. **Gohebiaeth:** E-bostiwyd:

- i. **Cais am Barc Sglefrio:** Derbyniwyd cais gan rai o bobl ifanc y dref i'r Cyngor edrych mewn i gael Parc Sglefrio, fel sydd mewn trefi eraill yng Ngwynedd. Cytunwyd i holi'r Cynghorydd Dilwyn Morgan i gyd-weithio gyda Swyddog Ieuenctid Alaw Paul ac arweinwyr brwd yn y dre i roi cychwyn ar y broses.
- ii. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd esiamplau o arfer gorau mewn Ymgynghoriad Cymunedol.
- iii. **Un Llais Cymru:** Derbyniwyd Rhaglen Hyfforddiant.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd am gyfyngiadau Covid 19.
- v. **Age Cymru:** Rhannwyd holiadur "Dwedwch eich Stori".
- vi. **Cyngor Cymuned Llanllyfni** – Cytunwyd i gefnogi cais Cyngor Cymuned Llanllyfni i ofyn i Gyngor Gwynedd drefnu cyfarfod i drafod codi tâl ar gerddwyr yr Wyddfa
- vii. **Cyfoeth Naturiol Cymru** – nodwyd y lansiad ar-lein sydd i ddigwydd ar 18/9/20 am 11.00 y bore.

- viii. **Bwrdd Dŵr Cymru:** Derbyniwyd gwybodaeth am adnewyddu Capel Coffa Celyn.
 - ix. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Nodwyd derbyn ymgynghoriad ar Amcanion Gwelliant a Llesiant
 - x. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Nodwyd derbyn ymgynghoriad ar goedwigaeth
-
- 11. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyniwyd adroddiad Alun Price, Cadeirydd Partneriaeth Penllyn, a ddywedodd fod y gwaith o uwchraddio'r llawr uchaf wedi ei orffen. Mae'r adeilad wedi ei baratoi ar gyfer amodau Covid 19 ac ar agor bellach. Mae wi-fi newydd y dref wedi ei osod yn y dderbynfa ac ar gael ar hyd y Stryd Fawr.
 - 12. **Asedau'r Cyngor:** Anfonodd Carol Rowlands adroddiad fod cyflwr yr asedau'n dda. Mae wedi derbyn nifer fawr o gwynion am sbwriel yr haf hwn.
 - 13. **Materion lleol y Cyngorwyr Tref:** Mae galw gan lawer am gyfyngiad 40mya yn Llanycil oherwydd y perygl wrth geisio croesi at y fynwent ac oddi yno - yn arbennig i'r oedrannus. Cytunwyd i ofyn am gyd-weithio gyda Chyngor Cymuned Llanycil ac i ysgrifennu at Asiantaeth y Cefnffyrdd. Mae llawer o arwyddion yno yn barod, ond byddai arwydd yn dangos fod pobl oedrannus yn croesi efallai yn fuddiol. Mae pryder am ddiogelwch tu fewn i gyffiniau'r fynwent hefyd, oherwydd bu damweiniau yn y gorffennol gyda cherbydau'n dod trwy wal y fynwent. Cytunwyd hefyd i drafod gyda Byd Mary Jones a oes posib caniatáu i bobl fynd i'r fynwent o'r maes parcio yno. Byddai camera cyflymder hefyd yn ddefnyddiol. Gofynnwyd am Arolwg Traffig yn y fan hon.

Amser gorffen: 8.45pm